

# Partneriaeth Natur Sir Gâr

## Adroddiad ar Weithredu

Ionawr – Rhagfyr 2025

Partneriaeth Natur
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Nature Partnership

## Rhagair

Mae gan Sir Gaerfyrddin hanes hir o gydweithio yn y sector amgylchedd naturiol. Rhwydwaith o sefydliadau yw Partneriaeth Natur Leol Sir Gâr, sy'n cynnwys y Cyngor, CNC, elusennau bywyd gwyllt, cofnodwyr bioamrywiaeth sirol a grwpiau gwirfoddol - sydd oll yn cydweithio i warchod a gwella bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin. Mae'r Bartneriaeth hefyd yn cynnwys cysylltiadau â chymunedau ac unigolion, ac mae hyn wedi cael ei gryfhau yn y blynyddoedd diwethaf drwy brosiect Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a ariennir gan Lywodraeth Cymru (LlC).

Pwrpas y Bartneriaeth yw hyrwyddo adferiad natur a chymryd camau sy'n bodloni'r amcanion cenedlaethol ar gyfer adferiad natur, a helpu i wneud Sir Gaerfyrddin yn fan i bobl a natur gael ffynnu. Fe'i hwylusir gan Swyddog Bioamrywiaeth y Cyngor, ac mae'n cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn, gan dderbyn diweddariadau mynych (bob wythnos fel arfer). Mae gwaith y partneriaid yn cynnwys gweithredu cadwraethol sy'n ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth yn y sir drwy reoli tir, a gweithredu i helpu rhywogaethau penodol. Mae cyfranogiad lleol yn hanfodol, ac mae partneriaid yn gweithio i godi ymwybyddiaeth a gweithredu prosiectau sy'n fuddiol i fioamrywiaeth a llesiant cymunedol. Drwy ddarparu llwyfan i rannu profiadau, gwybodaeth ac arfer gorau, mae'r Bartneriaeth yn hwyluso cyfathrebu a chydweithio. Mae'r grŵp hefyd yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth ac arbenigedd sy'n helpu i lywio gweithredu deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol ar lefel leol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed gan bartneriaid yn y Bartneriaeth yn 2025.

Yng Nghymru, mae Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) a gyflwynwyd i'r Senedd ar 2 Mehefin 2025 o bwys arbennig. Mae'r ddeddfwriaeth hon sy’n datblygu:

- Yn ceisio ymgorffori egwyddorion amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol yn y gyfraith (atal; rhagofal; cywiro yn y tarddle; y llygrwr sy'n talu).
- Yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru gymhwyso'r egwyddorion hyn ac ymgorffori diogelu'r amgylchedd mewn polisi.
- Yn sefydlu corff goruchwylio: *Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru* (SLlAC) i fonitro, gorfodi a sicrhau cydymffurfiaeth.
- Yn cyflwyno fframwaith ar gyfer targedau bioamrywiaeth statudol. Rhaid i'r rhain ganolbwyntio ar bethau fel lleihau'r risg y bydd rhywogaethau brodorol yn diflannu; gwella gwydnwch ecosystemau; cynyddu amrywiaeth genetig; sicrhau tystiolaeth o ansawdd da a hygyrchedd y dystiolaeth honno.

Mae'n debygol y bydd y grŵp cyntaf o dargedau bioamrywiaeth cyfreithiol-rwym yn cael eu gosod yn 2028 (2 flynedd ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym).

Yn ogystal â hynny, yng Nghymru byddwn yn diweddaru Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru (CGAN) yn fuan. Cyhoeddwyd y cynllun cyfredol yn 2015 ac roedd yn nodi ymrwymiad i adennill y bioamrywiaeth sydd wedi'i cholli yng Nghymru ac amcanion i'w gweithredu. Fe'i diweddarwyd yn 2020.

Y weledigaeth ar gyfer y cynllun wedi'i ddiweddaru yw gweledigaeth y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang (GBF), sef 'erbyn 2050, bod bioamrywiaeth yn cael ei gwerthfawrogi, ei gwarchod, ei hadfer a'i defnyddio'n ddoeth, gan gynnal gwasanaethau ecosystem, a chadw'r blaned yn iach, a chreu buddion i bawb'.

Gan adeiladu ar 6 amcan Cynllun Gweithredu Adfer Natur 2015 ac yn unol â'r GBF, cynigiwyd chwe nod:

Nod 1: Diogelu, adfer a rheoli ecosystemau yn effeithiol i adeiladu eu gwydnwch.

Nod 2: Diogelu rhywogaethau a gwella'r rheolaeth arnynt.

Nod 3: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau, cynefinoedd ac ecosystemau.

Nod 4: Sefydlu trefniadau llywodraethu effeithiol a'r gallu i gyflawni.

Nod 5: Ymgorffori bioamrywiaeth drwy ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth i gefnogi penderfyniadau effeithiol ar bob lefel.

Nod 6: Gwella ein tystiolaeth a'n gwaith monitro.

Ceir ymgysylltu pellach gyda'r targed o gwblhau yn nhymor y gwanwyn 2026.

Yn lleol felly, mae'r Bartneriaeth yn paratoi i ddiweddaru Cynllun Adfer Natur Sir Gaerfyrddin i gyd-fynd â'r gwaith i ddiweddaru'r cynllun cenedlaethol. Rydym am fod yn siŵr ei fod yn ddefnyddiol i bob partner yn y Bartneriaeth (h.y. partneriaid cyhoeddus ac eraill) er mwyn cefnogi'r gwaith hanfodol y maen nhw wedi bod yn ei wneud ers degawdau.

Mae'r Bartneriaeth yn cynnal cyfarfodydd â phartneriaid sy'n canolbwyntio ar y cynefinoedd â blaenoriaeth yn y sir. Y nod yw clywed gan bartneriaid perthnasol am eu gwaith i gael darlun o'r amrywiaeth o waith sy'n digwydd yn y sir ar gyfer y cynefinoedd hyn, a'r rhywogaethau â blaenoriaeth sy'n gysylltiedig â nhw.

Mae cynnydd yn parhau yng Nghymru, ac yn Sir Gaerfyrddin o ran targed 30x30 Cymru i warchod 30% o dir, dŵr croyw a moroedd erbyn 2030, yn unol â'r GBF. Mae prosiectau mapio yn cael eu cynnal, dan arweiniad Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru, gan ganolbwyntio yn gyntaf ar ystad Cyngor Sir Caerfyrddin ac yna ar ardal ehangach y Bartneriaeth gan edrych ar y tir a reolir ar gyfer bioamrywiaeth, a lle ceir cyfleoedd i reoli ardaloedd eraill.

Mae rhai o bartneriaid y Bartneriaeth yn cyfrannu at brosiect peilot cenedlaethol i dreialu pecyn cymorth i asesu safleoedd i gymhwyso fel safleoedd Natufa (Mesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill ar Sail Ardal gynt). Safleoedd heb eu dynodi yw'r rhain sydd eisoes yn cyfrannu at adferiad natur – neu sydd â'r potensial i wneud hynny. Maent yn ategu safleoedd dynodedig gyda'r amcan o ffurfio rhwydwaith ecolegol gwydn ledled y wlad.

Mae bioamrywiaeth yn Sir Gaerfyrddin yn parhau i brofi pwysau ac effeithiau negyddol y newid hinsawdd, cynnydd mewn datblygiad a newidiadau o ran defnydd tir a rheoli tir. Mae'r Bartneriaeth yn gadarn, ac mae gwaith yr holl bartneriaid yn hanfodol, a bydd yn hanfodol, er mwyn cyflawni nodau cenedlaethol y CGAN diwygiedig yn y dyfodol.

Mae partneriaid unigol wedi llwyddo i sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau o nifer o ffynonellau: Cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur LlC, Coedwig Genedlaethol Cymru, y Grant Gwella Coetiroedd, Rhwydweithiau Natur Cronfa Dreftadaeth y Loteri, cytundebau Cyfoeth Naturiol Cymru a chynnal prosiectau hanfodol ac ymgysylltu â chymunedau o ganlyniad i'r cyllid hwn. Fodd bynnag, mae angen cyllid hirdymor i sicrhau bod y Bartneriaeth yn parhau i weithredu er mwyn cefnogi adferiad natur yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r Awdurdod Lleol yn galluogi cynnal/ysgrifenyddiaeth y Bartneriaeth a chysylltiadau â chynllun Partneriaethau Natur Lleol Cymru sy'n gweithredu'n genedlaethol, drwy'r Swyddog Bioamrywiaeth. Mae cefnogaeth ariannol drwy amser swyddogion Awdurdod Lleol wedi bod yn hanfodol er mwyn galluogi'r Bartneriaeth i barhau. Mae hyn hefyd wedi ein galluogi i gyflogi Swyddog Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, a ariennir gan LlC, i gyflawni'r rhaglen waith statudol o fewn y sir.

Mae'r Bartneriaeth wedi elwa'n aruthrol ar gefnogaeth sylweddol gan y rhan fwyaf o'r sefydliadau partner. Mae swyddogion o sefydliadau partner, cofnodwyr sirol a chynrychiolwyr asiantaethau statudol yn mynychu cyfarfodydd yn wirfoddol. Mae'r Grŵp Llywio yn cynnwys partneriaid sydd wedi gwirfoddoli am y rôl:

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru,

Cyfoeth Naturiol Cymru,

Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru,

Cyngor Sir Caerfyrddin,

Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir,

Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru

Un Llais Cymru

Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru,

...yn rhoi o'u hamser eu hunain neu amser eu sefydliadau.

Yn ogystal â hyn, dylai Cynllun Ffermio Cynaliadwy LlC gael ei gyflwyno yn 2026.

Gobeithiwn y bydd y taliadau'n effeithiol wrth adfer cynefinoedd ac arferion ffermio hirdymor sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt. Yn ogystal â hynny, y tu allan i'r byd amaeth, nid oes rhyw lawer o gymorth ariannol ar gael i reoli tir yn y tymor hir nac er cadwraeth natur, ac nid yw cyllid grant yn ateb cynaliadwy. Gall rhai o'n partneriaid ariannu rheolaeth barhaus ar dir drwy roddion gan y cyhoedd a chefnogaeth aelodau, ond mewn llawer o achosion ni all sefydliadau gynnal y budd a ddaw yn sgil gwella bioamrywiaeth y tu hwnt i derfyn oes

prosiectau. Un o rolau pwysig y Bartneriaeth Natur Leol felly yw codi ymwybyddiaeth a chefnogaeth ymhlith y cyhoedd ac awdurdodau ynghylch pwysigrwydd hanfodol bioamrywiaeth a'r gwasanaethau ecosystem a ddarperir gan natur ar bob graddfa.

Cyn inni gael blwyddyn arall brysur yn 2026, mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o rai o gyflawniadau'r partneriaid yn 2025. Mae'n rhoi enghreifftiau o gydweithio a chydweithredu, a hwylusir yn aml gan y Bartneriaeth, i warchod a gwella'r ystod amrywiol o gynefinoedd a rhywogaethau yn Sir Gaerfyrddin.

*Grŵp Llywio Partneriaeth Natur Sir Gâr*

## Partneriaeth Natur Sir Gâr

| Byrfoddau yn y Testun | |
|---|---|
| Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru | SWTRA |
| Coedwig Genedlaethol Cymru | CGC |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | CNC |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | CSC |
| Cyllid fel rhan o gytundebau cyfreithiol â CNC i reoli safleoedd gwarchodedig | A16 |
| Cyllid sydd ar gael fel rhan o'r broses gynllunio lle mae mesurau lliniaru amgylcheddol wedi'u cynnwys fel amod. | A106 |
| Cymdeithas Fotaneg Prydain ac Iwerddon | BSBI |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | GFGC |
| Grant Buddsoddi mewn Coetir, Y | TWIG |
| Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin | GDSG |
| Gwarchod Gloÿnnod Byw | GGB |
| Gwarchodfa Natur Leol | GNL |
| Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Y | RSPB |
| Lleoedd Lleol ar gyfer Natur | LlLlN |

| | |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | LlC |
| Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru | INCC |
| Parc Arfordirol y Mileniwm | PAM |
| Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru | PBC |
| Rhywogaethau anfrodorol goresgynnol | INNS |
| Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir | WWT |
| Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru | YAGC |
| Ymddiriedolaeth Natur De a  Gorllewin Cymru | YNDGC |
| Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent | VWT |
| Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn, Yr | BBCT |
| Ymddiriedolaeth Cadwraeth Pen-bre | YCP |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Yr | NT |

Amcanion cyfredol Cynllun Adfer Natur Sir Gaerfyrddin y cyfeirir atynt yn yr adroddiad:

❶ Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn ymgorffori bioamrywiaeth ar hyd pob lefel o wneud penderfyniadau;

❷ Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwysigrwydd pennaf a gwella'r rheolaeth ohonynt;

❸ Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd wedi dirywio a chreu cynefinoedd;

❹ Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd;

❺ Gwella ein tystiolaeth,  ein dealltwriaeth a'n monitro;

❻ Rhoi ar waith fframwaith o  lywodraethu a chymorth i gyflawni.

<table>
<tr><td colspan="6">Yn 2025, mae INCC wedi parhau â'u hamrywiaeth o brosiectau sy'n canolbwyntio ar rywogaethau a chynefinoedd, gan gynnwys, yn Sir Gaerfyrddin, rheoli cynefinoedd, cael gwared ag INNS, monitro ac arolygon yng Ngwarchodfa Natur Llwyndewi ar gyrion Bannau Brycheiniog. Roedd hyn yn cynnwys cael gwared â Jac y Neidiwr, teneuo Rhedyn, creu pyllau a gosod blychau Titw'r Helyg. Roedd y prosiect yn cynnwys cyflogi dau fyfyriwr yn rhan-amser dros yr haf, gan gynnal rhaglen o sesiynau gwirfoddoli.<br><br>Mae rheoli cynefinoedd wedi cynnwys cael gwared â defaid a sefydlu tir pori i wartheg yn y cynefinoedd glaswelltir corsiog, ac adfer glaswelltir asidig a sgri drwy falu rhedyn mewn ardaloedd dethol.</td><td><br>Malu rhedyn yng Ngwarchodfa Natur Llwyndewi</td></tr>
<tr><td colspan="6">Cyllid yn 2025:<br>• Ynni Sir Gar – blychau Titw Helyg<br>• Cymorth ar gyfer Lleoliadau Myfyrwyr</td><td>Cydweithio:<br>Cyngor Tref Cwmaman, Coleg Penybont, Dŵr Brecon Carreg, Cymdeithas Adaryddol Cymru, GFGC, GGB, YNDGC, CSC</td></tr>
<tr><td colspan="6">Yn cyfrannu at Amcanion CGAN Sir Gaerfyrddin (gweler uchod)</td><td>Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr</td></tr>
<tr><td>❶ ✓</td><td>❷ ✓</td><td>❸ ✓</td><td>❹ ✓</td><td>❺ ✓</td><td>❻</td><td></td></tr>
</table>

Mae Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin yn cynnal dau gyfarfod dan do bob blwyddyn mewn gwahanol neuaddau pentref. Mae'r grŵp yn tueddu i symud y cyfarfodydd o gwmpas y sir er mwyn sicrhau y gall perchnogion dolydd ledled Sir Gaerfyrddin ddod draw. Mae nifer dda yn mynychu'r rhain, ac fel arfer maent yn cynnwys un brif sgwrs lawn, a sawl cyflwyniad a thrafodaeth fer. Mae Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin yn cynnwys dros 100 o aelodau, mae gan y wefan 232 o 'danysgrifwyr', ac mae'r Grŵp Facebook yn cynnwys 670 o aelodau. Mae'r Grŵp Facebook Big Meadow Search (BMS, un o brosiectau Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin - bellach yn genedlaethol) yn cynnwys 730 o aelodau, 2713 o ddilynwyr ar X, a 1,422 ar Bluesky. Mae'r prosiect BMS wedi cynhyrchu dwy gyfrol o'r llyfr BMS, gydag awgrymiadau ynghylch sut i adnabod planhigion glaswelltir a gwybodaeth am eu cysylltiadau â rhywogaethau eraill. Aeth dau aelod o'r Grŵp Llywio (GLl) i'r Gynhadledd Dolydd Genedlaethol ger Caerfaddon. Ym mis Mehefin, trefnodd y GLl hyfforddiant â chymhorthdal i aelodau GDSG ar ddefnyddio pladur.



Hyfforddiant pladuro i aelodau GDSG.

**Cydweithio:**

Tirfeddianwyr preifat

**Yn cyfrannu at Amcanion CGAN Sir Gaerfyrddin (gweler uchod)**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ❶ ✓ | ❷ ✓ | ❸ ✓ | ❹ ✓ | ❺ ✓ | ❻ |

Mae **Cyngor Sir Caerfyrddin** wedi bod yn cynnal dau brosiect TWIG eleni, o dan arweiniad ei Swyddog Coetir Coed Cymru:

1 . Prosiect i greu coetir wrth ymyl Ysgol Gynradd Bynea yw prosiect Coetir Cymunedol Bynea. Mae 4.6 ha o goetir brodorol wedi'i blannu gydag ardaloedd ychwanegol wedi'u gadael i adfywio'n naturiol gan greu cyfanswm o 7ha o goetir. Cynhaliwyd diwrnodau plannu gyda phlant o'r ysgol a thrigolion lleol eraill. Mae llwybrau a gatiau wedi cael eu gosod drwy'r ardal sy'n cynnig mynediad i bawb.

2. Yng Nglofa Pentremawr ym Mhontyberem mae cyllid TWIG yn cael ei ddefnyddio i wella mynediad i'r cyhoedd, i gynnal arolygon, i reoli rhywogaethau estron goresgynnol ac i reoli cynefinoedd. Mae llawr-geirios a chlymog Japan wedi cael eu trin dros oddeutu 2.5ha, gwaith teneuo conwydd wedi'i gwblhau a gwaith bôn-docio coetir eilaidd wedi'i gynllunio ar gyfer y gaeaf hwn.

Yn y ddau safle mae Coed Lleol wedi cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ar gyfer plant ysgol a thrigolion, gan gynnwys teithiau cerdded natur a gweithgareddau coetir fel chwilota am fwyd ac ymwybyddiaeth ofalgar drwy dynnu llun.

Mae'r gwaith arall a wnaed yn cynnwys plannu 0.8ha o goetir yn Fferm Sirol Bremenda Isaf, Llanarthne, clustogi coetir a gwrychoedd presennol a darparu mwy o loches a bioddiogelwch i dda byw.

Yn Fferm Sir Gilfach, Llanymddyfri, bu CSC yn gweithio gyda'r tenant er mwyn helpu i greu cynllun plannu coed i glustogi a chysylltu ardaloedd coetir a choed gwrych aeddfed. Gweithredwyr y cynllun gan y tenant drwy Gynllun Grantiau Bach LlC.

Mae CSC wedi gweithio gyda thri o bartneriaid y Bartneriaeth (YAGC, YNDGC a'r NT) i gyflwyno dau gais llwyddiannus i gynllun Tirwedd CGC. Mae'r rhain yn cynnwys prosiect ar dir yr hen ysgol yn Nhre-gib lle bydd y gwaith hwn a chyllid LlLlN yn cael eu defnyddio i wella'r cynefin coetir a mynediad y cyhoedd i'r ardal hon.



Bôn-docio yng Nghoetir Cymunedol Pentremawr

**Cyllid yn 2025:**

Prosiectau coetir TWIG LlC

Cynllun Grant Coetiroedd Bach LlC

**Cydweithio:**

Coed Lleol,

Cyngor Cymuned Pontyberem

**Yn cyfrannu at Amcan CGAN Sir Gaerfyrddin (gweler uchod)**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ❶ ✓ | ❷ ✓ | ❸ ✓ | ❹ ✓ | ❺ | ❻ |

Mae **Gwasanaeth Hamdden Awyr Agored CSC** yn rheoli 13 o safleoedd ledled y sir (6 Gwarchodfa Natur Leol, 1 Gwarchodfa Natur Leol arfaethedig a mannau gwyrdd mewn parciau gwledig). Yn 2025 mae rhai prosiectau pwysig wedi cael eu cynnal i adfer a chreu cynefinoedd ar draws rhai o'r safleoedd hyn. Drwy Brosiect Dal Carbon ym Meysydd Gŵyl PAM cafodd cynefin tir llwyd ei greu drwy ddefnyddio slag, gwastraff a gynhyrchir o'r diwydiant dur. Cafodd planhigion plwg eu plannu ar y safle, a gobeithio y bydd yn datblygu i gynnwys cyfoeth o rywogaethau, ac y gall y slag gynnal amrywiaeth eang o rywogaethau o blanhigion.

Yng Ngwarchodfa Natur Leol Morfa Berwig, mae cynefinoedd tir llwyd a chynefinoedd llygod y dŵr wedi cael eu rheoli ar gyfer y nodweddion blaenoriaeth hyn, ac mae cyllid LlLlN LlC yn cefnogi prosiect ystlum pedol mwyaf ym Mharc Gwledig Pen-bre, gan weithio gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent.

Mae cyllid LlLlN hefyd wedi ariannu blychau nythu i wenoliaid y glennydd yn GNL arfaethedig Ffynnon Helyg, ac mae'r broses yn mynd rhagddi i ddatgan Ffynnon Helyg yn GNL lawn.

Mae gosod corlannau trin gwartheg yn GNL Twyni Pen-bre wedi galluogi pori â ffocws ar y twyni tywod dynodedig yma.



Prosiect Dal Carbon yn y Meysydd Gŵyl

**Cyllid yn 2025:**

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 25-26

Cytundebau Adran 16 Cyfoeth Naturiol Cymru

Cynllunio A106

**Cydweithio:**

CNC, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent, porwr lleol

**Yn cyfrannu at Amcan CGAN Sir Gaerfyrddin (gweler uchod)**

Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ❶ ✓ | ❷ ✓ | ❸ ✓ | ❹ ✓ | ❺ ✓ | ❻ |

O ran yr RSPB mae prosiect pwysig yng Ngwenffrwd-Dinas eleni wedi creu rheolaeth o'r newydd ar lain clustogi rhwng tir pori parhaol a choedwig Dinas. Ar hyn o bryd ceir newid sydyn o laswelltir i orchudd coed, ond bydd ffens newydd yn galluogi'r RSPB i greu ardal bontio raddol sy'n cynnwys llawer mwy o amrywiaeth rhwng y naill gynefin a'r llall. Bydd gwartheg yn pori'r ardal hon a hefyd yn y coetir, yn lle'r defaid blaenorol, a bydd datblygiad clytiau o dir prysg yn cael ei annog. Bydd hyn yn creu cynefin pwysig a hefyd yn rheoleiddio lleithder yn well yn y coetir. Mae Dinas yn lleoliad pwysig ar gyfer amrywiaeth o blanhigion is, ac mae hafau cynyddol sych yn peri risg i'r poblogaethau hyn. Bydd graddoli mwy naturiol o laswelltir i ganopi uchel yn lleihau cyflymder y gwynt ac yn cadw mwy o leithder, gan wella'r microhinsawdd.

Mae'r RSPB hefyd wedi bod yn ymgynghori â'r Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid ynghylch creu pyllau newydd a nodweddion gwlyb yn yr ardaloedd newydd hyn, gan greu budd pellach i fioamrywiaeth.

Y prif brosiect arall yn Ninas fu'r gwaith adfer yn dilyn Storm Darragh ym mis Rhagfyr 2024. Achosodd y storm i gannoedd o goed gwympo yn y warchodfa, gan olygu nad oedd modd defnyddio tua 100m o'n llwybr pren. Penderfynon ni ailgyfeirio hwn, yn hytrach na chlirio ac atgyweirio'r llwybr presennol, a oedd yn nesáu at ddiwedd ei oes. Mae hyn wedi ein galluogi i gadw coed a chwythwyd gan y gwynt yn eu lle, ynghyd â'r holl fuddion ecolegol cysylltiedig. Bydd y llwybr newydd hefyd yn tywys ymwelwyr ar daith mwy amrywiol i'r warchodfa, gan archwilio gwahanol fathau o gynefinoedd.



Ffensys newydd yng Ngwenffrwd-Dinas

| **Cyllid yn 2025:**<br>Mae ein ffermwyr tenant wedi cyflawni gwaith amrywiol drwy'r cynllun Grantiau Bach, gan gynnwys plygu perthi a phlannu coed. Mae'r holl waith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi cael ei ariannu o'r gyllideb graidd neu drwy roddion hael. | | | | | | **Cydweithio:**<br>Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid<br>INCC<br>YNDGC<br>Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yn cyfrannu at Amcanion CGAN Sir Gaerfyrddin (gweler uchod)** | | | | | | Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr |
| ❶ | ❷✓ | ❸✓ | ❹✓ | ❺✓ | ❻ | |

O ran Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, mae cyfuniad o gyllid grant ac ymdrechion gwirfoddolwyr wedi bod o gymorth i reoli eu gwarchodfeydd natur yn barhaus, gan gynnwys cefnogi cynefinoedd a rhywogaethau allweddol, yn ogystal â gwella mynediad i bobl eu mwynhau. Dyma rai o brif uchafbwyntiau 2025:

• plygu perthi yn Rhos Cefn Bryn i wella cynefin y pathewod a darparu llinellau hedfan i löyn byw brith y gors;

• gosod ffensys ar ran ogleddol Cors Fferm Ffrwd fel y gellir ymestyn yr ardal bori er mwyn helpu i adfer cynefin y gors;

• torri a phori yng Nghors Goch i agor ardaloedd o laswellt, gan greu budd i forgrug y gors, sy'n rhywogaeth brin, ac annog twf mwsogl *Sphagnum;*

• plannu'r ddraenen wen a'r ysgawen i ychwanegu at yr isdyfiant yng Nghoed Castell er mwyn cynnal cylch oes infertebratau saprocsylig (infertebratau sy'n ddibynnol ar bren sydd wedi marw/sy'n pydru);

• cymryd rhan mewn adolygiad rheoli caeau yng Ngharmel, gan gynnwys edrych ar samplau pridd a gwybodaeth fotanegol i wella'r rheolaeth ar gaeau gwair penodol;

• arolwg wedi'i ariannu gan LlLlN o fryoffytau Iwerydd (mwsoglau) yng Ngwarchodfa Natur Nant Melyn;

• cleisio rhedyn dan bŵer merlod yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Carmel i gefnogi adferiad cynefinoedd rhostir a glaswelltir asidig.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi mynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol, gan gynnwys gofyn i arbenigwyr allanol i ymdrin â cotoneaster ar wynebau'r chwarel yng Ngharmel, yn ogystal â rhododendron yng Nghoed y Castell. Mae jac y neidiwr wedi cael ei dargedu yng Ngharmel, Coed y Castell, Cors Goch, Rhydyglyn, ac mae gwaith rheoli mincod wedi'i ehangu yng Nghors Fferm Ffrwd, i gynnwys tir cyfagos bellach hefyd. Mae cegid y Gorllewin wedi cael ei rheoli yn Erw Hen Hebog lle mae ei phresenoldeb yn bygwth cynefin coedwig law tymherus bregus.
Mae'r gwelliannau mynediad yn cynnwys llwybr pren newydd yn Ffrwd, pont newydd yn Nhalyllychau, esgynfa newydd a rhan o lwybr pren yng Nghoed y Castell, ac mae gwirfoddolwyr wedi helpu i gadw cilometrau o draciau a llwybrau ar agor ac yn hygyrch. Mae llawer iawn o waith diogelwch coed wedi'i gyflawni yng Nghoed y Castell.



Gwirfoddolwyr yn plygu perthi yn Rhos Cefn Bryn.

| **Cyllid yn 2025:** Cronfa Dreftadaeth y Loteri 3 natur hygyrch, Cronfa Dreftadaeth y Loteri 4, LlLlN. | | | | | | **Cydweithio:** CSC, CNC, Plantlife, GGB, NT, Cymdeithas Helwyr Adar y Dŵr Sir Gaerfyrddin, porwyr niferus. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yn cyfrannu at Amcanion CGAN Sir Gaerfyrddin (gweler uchod)** | | | | | | Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr |
| ❶✓ | ❷✓ | ❸✓ | ❹✓ | ❺✓ | ❻ | |

Cwblhaodd Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru (CGBGC) eu Pecyn Cymorth ar gyfer Cofnodi Bywyd Gwyllt Cymunedol ym mis Mawrth 2025. Dros ddwy flynedd y prosiect, bu CGBGC yn gweithio gyda thri grŵp yn y sir: Clwb Tyddynwyr Talyllychau a Chwmdu, Prosiect Adfer Llwybr Troed Cilymaenllwyd a gwirfoddolwyr Parc yr Esgob Abergwili.  Defnyddiwyd y profiad o weithio gyda'r grwpiau hyn i greu amrywiaeth o adnoddau gan gynnwys Gwefan Pecyn Cymorth Cofnodi ac amryw o lyfrynnau er mwyn helpu i adnabod ac esbonio rhyngweithiadau rhywogaethau cyffredin a welir bob dydd.

Mae *Adeiladu'r Gymuned Cofnodi Bywyd Gwyllt yn Sir Gaerfyrddin* a ariannwyd gan LlLlN yn dilyn ymlaen o hyn ac yn anelu i gynnwys mwy o bobl yn y sir ar bob lefel o ran profiad, gan wella'u sgiliau fel cofnodwyr bywyd gwyllt a'u helpu i deall eu hamgylchedd lleol yn well. Mae'n defnyddio'r adnoddau a'r profiad blaenorol, ynghyd â thechnoleg GIS, i annog pobl i fabwysiadu eu hardal neu eu dalgylch lleol ac, yn y pen draw, i roi cynllun cofnodi iddynt.  Bydd y cynllun hwn yn eu helpu i ddeall eu dalgylch lleol yn well, y fioamrywiaeth y gallai ei chynnal, a thrwy gofnodi, helpu i'w fonitro dros amser.

Mae Cofnodion Biolegol Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu o 1,506,491 i 1,698,241 o fis Ionawr i fis Medi.



Diwrnod cofnodi a gynhaliwyd gan CGBGC

**Cyllid yn 2025:**

LlLlN LlC

**Cydweithio:**

Partneriaeth Natur Sir Gâr

Ynni Lleol Capel Dewi, grwpiau cymunedol.

**Yn cyfrannu at Amcanion CGAN Sir Gaerfyrddin (gweler uchod)**

Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ❶ ✓ | ❷ | ❸ | ❹ | ❺ ✓ | ❻ |

Mae cais Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir i'r Gronfa Rhwydweithiau Natur, **fu'n aflwyddiannus** yn 2024, wedi cael ei ailgyflwyno eleni, ar gyfer gwaith ar y Lagwnau Heli, i greu Cynefin Dŵr Croyw, ar gyfer deongliadau'r llwybr arfordirol, a gwelliannau i'r Guddfan British Steel.

Gan weithio gydag ymgynghorwyr mae Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir wedi cynnal prosiect titw'r helyg, wedi gosod blychau nythu, wedi cynnal arolygon a gwaith rheoli cynefinoedd ar gyfer y rhywogaeth hon sy'n cael blaenoriaeth yng Nghymru.

Mae'r gwaith wedi creu llwybrau newydd o amgylch y pyllau yn lle'r llwybrau pren a oedd wedi dirywio.

Eleni, mae cynllun sy'n cynnwys geifr yn pori ar ynys ar y safle a defnyddio peiriant torri gwair robotig i reoli llystyfiant ar y glannau, a pheiriant amffibiaidd Truxor wedi cael ei ddefnyddio i reoli'r gwely cyrs a llystyfiant arall sy'n dod i'r amlwg.



Geifr yn pori yn Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir

**Cyllid yn 2025:**

Cyllid Ymddiriedolaeth Elusennol ar gyfer gwaith adfer pwll

**Cydweithio:**

CSC, Ymddiriedolaeth Adareg Prydain, Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid, Cymdeithas Gweision y Neidr Prydain, Folly Farm, PTES.

| Yn cyfrannu at Amcanion CGAN Sir Gaerfyrddin (gweler uchod) | | | | | | Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ❶ ✓ | ❷ ✓ | ❸ ✓ | ❹ ✓ | ❺ ✓ | ❻ | |

Fel rhan o brosiect Cronfa Rhwydweithiau Natur 3, cynhaliodd Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (GFGC) ei Gŵyl BioBlitz 48 awr gyntaf erioed. Ymunodd arbenigwyr, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr â thros 25 o sefydliadau cadwraeth o bob cwr o Gymru i ddysgu am gynifer o rywogaethau ag sy'n bosibl a'u cofnodi. Gyda'i gilydd, cynhyrchodd y cyfranogwyr 999 o gofnodion biolegol sy'n cynrychioli 486 o dacsa. Darllenwch fwy ym mlog y Swyddog Ymgysylltu â Chadwraeth, Ellyn Baker.


Ochr yn ochr â'r BioBlitz, cyflwynodd y prosiect y Diwrnodau Ffwng a Blodau Gwyllt hirhoedlog a datblygu deunyddiau dehongli newydd, a llwybr llafar a phostiau ffotograffiaeth pwynt sefydlog ar gyfer Gwarchodfa Natur Genedlaethol Waun Las.

Parhaodd rhaglen bancio hadau GFGC mewn partneriaeth â Banc Hadau'r Mileniwm a chasglodd 22 o gasgliadau o hadau ledled Cymru o goed, llwyni a fflora dan fygythiad. Roedd y rhain yn cynnwys y Gors ar Ynys Môn (Dan Fygythiad yng Nghymru), tormaen mwsoglaidd ym Mannau Brycheiniog (Dan Fygythiad ym Mhrydain Fawr) a hesgen y morfa o'r Barri (Mewn Perygl yng Nghymru).

Hefyd, cynhaliodd yr Ardd leoliad i hyfforddai Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn a Natur am Byth (NaB) am 8 mis, ac mae'n parhau i dyfu mwsoglau dan fygythiad i NaB gefnogi gwaith cadwraeth *yn y fan a'r lle*. Yn ogystal â hynny, maen nhw wedi dechrau tyfu planhigion ar gyfer prosiect *yn y fan a'r lle* yn Eryri a gynhelir gan NaB a Plantlife.

Yn olaf, mae prosiect tair blynedd yr Ardd Planhigion y Gorffennol, y Presennol a'r Dyfodol yn parhau i ddigideiddio ein casgliadau planhigion gwasgedig hanesyddol, y mae rhai ohonynt rhwng 80 a 200 o flynyddoedd oed, gyda chefnogaeth amhrisiadwy gan wirfoddolwyr ymroddgar.



| Group | Species Count |
|---|---|
| Flowering plants | 188 |
| Mosses & Liverworts | 23 |
| Ferns | 2 |
| Lichens | 11 |
| Fungi | 27 |
| Moths & Butterflies | 74 |
| Bees, Wasps & Ants | 30 |
| Flies | 47 |
| Other invertebrates | 58 |
| Birds | 19 |
| Mammals | 4 |
| Amphibians & Reptiles | 3 |

Canlyniadau Gŵyl BioBlitz GFGC

**Cyllid yn 2025:**

Prosiect 'Planhigion y Gorffennol, y Presennol a'r Dyfodol, a ariennir gan Fenter Casgliadau Dynamig Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol

Prosiect 'Tyfu Gwydnwch: Cronfa Natur Genedlaethol ar gyfer y dyfodol' a ariennir o Gronfa Rhwydweithiau Natur 3 Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol/Llywodraeth Cymru

Grantiau cymorth bach gan Ardd Fotaneg Frenhinol Kew ar gyfer bancio hadau rhywogaethau a choed/llwyni sydd ar y rhestr goch yn 2025.

**Cydweithio:**

Banc Hadau Mileniwm Gerddi Kew
Cymdeithas Fotaneg Prydain ac Iwerddon
Plantlife
Cyfoeth Naturiol Cymru
Gardd Fotaneg Treborth
Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn
Cymorth gan sefydliadau eraill ar gyfer casglu hadau, caniatâd tirfeddianwyr a gwybodaeth leol (e.e. Ymddiriedolaethau Bywyd

Gwyllt, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol).

**Yn cyfrannu at Amcanion CGAN Sir Gaerfyrddin (gweler uchod)**

Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ❶ ✓ | ❷ ✓ | ❸ ✓ | ❹ ✓ | ❺ ✓ | ❻ |

Mae gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent nifer o brosiectau cadwraeth sy'n canolbwyntio ar gigysyddion sy'n gweithredu yn Sir Gaerfyrddin yn 2025:

**Martens on the Move**

Mae'r cynllun hwn yn cefnogi adferiad bele'r coed drwy ymgysylltu a gweithredu yn y gymuned. Yn Sir Gaerfyrddin yn 2025:

- Adeiladwyd 15 o gudd-flychau a 30 o borthwyr bele'r coed gan Sied Dynion Llangadog, Llandeilo a Llanymddyfri a Sied Brechfa;
- Mae 20 o gudd-flychau'n cael eu monitro gan wirfoddolwyr (gyda chynlluniau i osod 20 o flychau eraill yn yr ardal, ar dir preifat ac ar dir coedwigaeth;
- 2 ddiwrnod hyfforddi (ecoleg a monitro bele'r coed) wedi'u cyflwyno i staff a gwirfoddolwyr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Dolaucothi

**Arolwg Cenedlaethol y Ffwlbart**

Dyma arolwg monitro'r ffwlbart dan arweiniad dinesydd-wyddonwyr - adroddwyd bod y ffwlbart wedi'i weld 45 o weithiau yn y sir

**Asesiad dichonoldeb cymdeithasol ailgyflwyno'r gath wyllt Ewropeaidd i Gymru**

Nod y rhaglen ymgysylltu cymunedol blwyddyn o hyd hon yw asesu dichonoldeb cynlluniau ailgyflwyno posibl, a chanfod beth yw'r gefnogaeth/gwrthwynebiad, nodi camau lliniaru a llywio camau gweithredu yn y dyfodol.

Cynhaliodd y prosiect nifer o weithdai cyhoeddus a chyfweliadau lled-strwythuredig yn 2025 i gofnodi a dadansoddi barn partïon â buddiant (h.y. ffermwyr, cadwraethwyr, eiriolwyr lles cathod, busnesau chwaraeon maes)

Llunio'r adroddiad 'A allai'r gath wyllt weithio i Gymru?' a gaiff ei gyhoeddi'n fuan



Bele'r coed yn bwyta afalau!

**Cyllid yn 2025:**

Martens on the Move (CDLG),

Dichonoldeb cymdeithasol cathod gwyllt (Cronfa Rhwydweithiau Natur, Cronfa Dreftadaeth, PTES)

**Cydweithio:**

CNC, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, SelectFor, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Durrel, Ymddiriedolaeth Wildwood, Cats Protection

**Yn cyfrannu at Amcanion CGAN Sir Gaerfyrddin (gweler uchod)**

Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ❶ ✓ | ❷ ✓ | ❸ | ❹ | ❺ ✓ | ❻ |

Mae'r **Weinyddiaeth Amddiffyn** yn gwneud gwaith rheoli parhaus pwysig ar safleoedd dynodedig ar eu tir yn Sir Gaerfyrddin.

Mae gwaith rheoli Mhentywyn (SoDdGA Lacharn - Twyni Pentywyn / Twyni Bae Caerfyrddin / ACA) yn cynnwys:

- torri a chasglu 20 ha o laswelltir twyni ac eginblanhigion prysgwydd diwedd yr haf mewn ardaloedd lle nad yw pori yn ymarferol;
- tynnu 5ha o helyg y môr yn fecanyddol ar hyd y cyn-dwyni.
- pori cadwraethol ar 330ha o laswelltir twyni.

Mae'r gwaith rheoli ym Maes Arfau Awyr Pen-bre (SoDdGA Arfordir Pen-bre/ACA Twyni Bae Caerfyrddin) yn cynnwys:

- defnydd dilynol o chwynladdwyr i reoli aildyfiant ac eginblanhigion helyg y môr mewn ardaloedd lle cwblhawyd gwaith i gael gwared arnynt cyn hynny.
- torri a chasglu 10ha o laswelltir twyni ar ddiwedd yr haf mewn ardaloedd lle nad yw pori yn ymarferol.
- defnyddio dulliau mecanyddol i gael gwared â 2ha o brysg helyg yn bennaf ar gynefin llac twyni.
- pori cadwraethol ar 460ha o laswelltir twyni sefydlog a morfa heli.

**Cydweithio:** Mae adfer cynefinoedd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn adlewyrchu'r hyn y mae CNC yn ei wneud ym Mhen-bre i sicrhau'r budd mwyaf.

**Yn cyfrannu at Amcanion CGAN Sir Gaerfyrddin (gweler y testun rhagarweiniol)**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ❶ | ❷✓ | ❸✓ | ❹✓ | ❺ | ❻ |

Bu 2025 yn flwyddyn nodedig i natur, gwyddoniaeth a phobl yn y **Gymuned Carbon**.

**Natur**

Mae Prosiect Coed a Choetiroedd Cysylltiedig Coedwig Glandŵr, a ariannwyd drwy Beilot Tirwedd Coedwig Genedlaethol Cymru 2024/2025 Llywodraeth Cymru ac a weinyddwyd gan CGGC drwy Bartneriaeth Natur Sir Gâr, wedi gwella cysylltedd yn sylweddol ar draws ystod amrywiol o gynefinoedd, ac wedi diogelu mwy o goed. Yn rhan o'r prosiect, cynhaliwyd hyfforddiant gennym ar blygu perthi yn arddull Brycheiniog, a oedd yn boblogaidd iawn.

Plannwyd y coed yng Nghoedwig Glandŵr yn 2021 gyda'r uchelgais o sefydlu coetir llydanddail iach ac amrywiol gyda chyfleuster treialon maes yn greiddiol i'r gwaith. Cydnabuwyd hyn yn 2025 pan dderbyniodd Coedwigaeth Tilhill a'r Gymuned Carbon Fedal Aur am Blannu neu Ailstocio Coed Llydanddail Dan Ddeng Mlwydd Oed (Dosbarth A) yn Sioe Frenhinol Cymru.

**Gwyddoniaeth**

Rhaglen ymchwil hirdymor yw ein Hastudiaeth Carbon sy'n ymchwilio i'r modd y gellir cyflymu'r broses o dynnu carbon o'r atmosffer yn y coed a'r pridd. Wedi'i chynllunio mewn cydweithrediad â gwyddonwyr blaenllaw, mae'r astudiaeth yn archwilio sut mae tywydd gwell ar greigiau a brechu microbiomau pridd yn effeithio ar dwf coed, bioamrywiaeth pridd, a storio carbon uwchben ac o dan y ddaear. 2025 yw pumed flwyddyn y prosiect ac mae'n garreg filltir wyddonol bwysig. O'r diwedd, mae digon o amser wedi mynd heibio i fesur yn drylwyr y newidiadau i'r carbon a ddelir o dan y ddaear - yn y gwreiddiau ac yn y pridd. Mae samplau wedi cael eu casglu, a bydd y data hyn yn cael eu cyfuno â mesuriadau uwchben y ddaear o'r coed, a gesglir yn flynyddol gan ddinesydd-wyddonwyr gwirfoddol yn ystod ein Hymgyrch Mesur Coed Fawr flynyddol.

**Pobl**

Yn ystod 2025, cyfrannodd dros 114 o wirfoddolwyr 236 o ddiwrnodiau o gefnogaeth ymarferol. Mae'r gweithgareddau wedi cynnwys plygu perthi, tynnu amddiffynwyr coed, plannu a mesur coed. Mae Coedwig Glandŵr hefyd wedi croesawu ymwelwyr ar deithiau tywys drwy'r coed ac wedi cynnal Is-adran De Cymru o'r Gymdeithas Goedwigaeth Frenhinol.



Perth yn blodeuo ar ôl cael ei phlygu yng Nglandwr.

**Cyllid yn 2025:**

**Cydweithio:** Coedwigaeth – Tilhill Forestry

<table>
<tr><td colspan="6">Coed a Choetiroedd Cysylltiedig Coedwig Glandŵr a ariennir gan Gynllun Peilot Tirwedd CGC CGGC<br>Astudiaeth Monitro, Adrodd a Gwirio Coedwig Glandwr (Astudiaeth MAG) wedi'i hariannu o'r Woodlands into Management Forestry Innovation Fund (WIMFIF) gan y Comisiwn Coedwigaeth. Cynhaliwyd y prosiect hwn ar y cyd â Phrifysgol Abertawe.</td><td>Ymchwil– Mae Coleg Imperial Llundain, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Sheffield oll wedi bod ar y safle at ddibenion ymchwil yn 2025<br><br>Dolydd – Mae Plantlife wedi rhoi canllawiau inni ar reoli dolydd a samplu eDNA<br><br>Gwirfoddoli Gwyddoniaeth Gymunedol a'r Ymgyrch Fawr i Fesur Coed 2025 – Eleni rydym wedi cael gwirfoddolwyr o SAP, Heidelberg Materials, Prifysgol Abertawe, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Coleg y Mynydd Du, CNC, Coleg Imperial Llundain</td></tr>
<tr><td colspan="6">Yn cyfrannu at Amcanion CGAN Sir Gaerfyrddin (gweler uchod)</td><td>Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr</td></tr>
<tr><td>❶ ✓</td><td>❷ ✓</td><td>❸ ✓</td><td>❹</td><td>❺</td><td>❻</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Mae Prosiect Britheg y Gors Caeau Mynydd Mawr CSC yn parhau yn ardal Cross Hands. Cafwyd canlyniadau da o arolygon gyda gwirfoddolwyr Gwarchod Gloÿnnod Byw eleni, gyda'r glöyn byw yn dod i'r amlwg tua mis yn gynnar. Cofnodwyd niferoedd da o weoedd larfa ar safleoedd â niferoedd isel yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cafwyd hyd i we larfa ger cae rygbi yn y Tymbl hyd yn oed!<br><br>Prosiectau A106 CSC: Mae prosiectau rheoli cynefinoedd wrth liniaru datblygu, a ariennir drwy rwymedigaethau cynllunio, ar gynnydd. Ceir chwe phrosiect bellach ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau a chynefinoedd, ac mae mwy ar y gorwel. Mae hyn yn dod yn ffordd dda o liniaru effeithiau datblygiad yn effeithiol, ar ran y datblygwr.<br><br>Mae tîm yr Amgylchedd Naturiol yn cydweithio'n gynyddol ag adrannau eraill CSC i feithrin perthnasoedd gwaith da, e.e. gyda Chynnal a Chadw Tir ar reoli glaswelltir, Eiddo Corfforaethol ar Ffermydd y Sir ac yn ddiweddar ag Amddiffyn rhag Llifogydd ar gyflawni prosiect lliniaru llifogydd yn Llansteffan.</td><td><br>Yn ffilmio ar gyfer Prosiect Partneriaeth Adfer Brith y Gors Gwarchod Gloÿnnod Byw yn eu gwarchodfa ar Fferm Median, gydag un o berchnogion y tir sy'n ymwneud â Phrosiect Caeau Mynydd Mawr.</td></tr>
<tr><td colspan="6">Cyllid yn 2025:<br>Cyllid datblygu A106</td><td>Cydweithio: GGB</td></tr>
<tr><td colspan="6">Yn cyfrannu at Amcanion CGAN Sir Gaerfyrddin (gweler uchod)</td><td>Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr</td></tr>
<tr><td>❶ ✓</td><td>❷ ✓</td><td>❸ ✓</td><td>❹ ✓</td><td>❺ ✓</td><td>❻</td><td></td></tr>
</table>

Mae Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru wedi cael blwyddyn brysur arall yn 2025 yn gwneud gwelliannau i gynefinoedd yn afonydd Sir Gaerfyrddin. Mae'r gwaith wedi cynnwys cyflawni'r canlynol:

• creu dros 2km o goridor afon coediog drwy ffensio a phlannu, gan blannu dros 1000 o goed. Bydd hyn yn cynyddu gallu blaenddwr yr afon i wrthsefyll y newid hinsawdd ac yn gwella cynefinoedd yn y dyfodol. Cyflwynwyd hyn mewn cydweithrediad â ffermwyr cefnogol yn Nyffryn Cothi drwy Brosiect Tirwedd CGC Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth ychwanegol o gronfa pysgodfeydd cynaliadwy CNC.

• gosod chwe llwybr rhwydd i bysgod, gan greu mynediad i bysgod heibio pontydd a chwlfertau problemus ar hyd isafonydd Afonydd Tywi a Theifi.

• tynnu dros 6km o jac y neidiwr ar hyd isafonydd Tywi a Theifi: Afon Bran a Marlais (ger Llanymddyfri a Cheiliog a Hust (ger Llanybydder).

• paratoi Cynllun Adfer Afon Teifi mewn cydweithrediad â Thîm Adfer Afonydd CNC. Mae hyn yn cynnwys camau adfer afonydd ar raddfa'r dirwedd ar draws chwe is-ddalgylch Teifi.



Llwybr rhwydd technegol i bysgod ger pont ar Afon Ceiliog wrth Llanybydder.

**Cyllid yn 2025:**

Prosiect Tirwedd CGC LlC

Cronfa Pysgodfeydd Cynaliadwy CNC

**Cydweithio:** perchnogion tir, CSC

**Yn cyfrannu at Amcanion CGAN Sir Gaerfyrddin (gweler uchod)**

Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ❶ ✓ | ❷ ✓ | ❸ | ❹ | ❺ | ❻ |

Cyflawnodd y Prosiect Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn Sir Gaerfyrddin dros 50 o brosiectau ar bob graddfa ledled y sir ar ystâd y cyngor a chyda phartneriaid o fewn Partneriaeth Natur Sir Gâr. Roedd y rhain yn cynnwys:

• prosiectau seilwaith gwyrdd mewn ardaloedd trefol, gan wella ardaloedd a chreu lle naturiol hygyrch ar ardaloedd 'caled' gynt;

• prosiectau tyfu bwyd, natur a llesiant cwbl hygyrch;

• perllannau cymunedol;

• plannu a plygu perthi

• gosod potiau planhigion ar feinciau;

• cael gwared â phlanhigion dyfrol goresgynnol;

• cofnodi bywyd gwyllt ac ymgysylltu a chefnogi gwirfoddolwyr;

• gwaith i ganiatáu pori cadwraethol;

• adnoddau dysgu ar gyfer swyddogion CSC.

Mae Llwyfan Ymgysylltu LlLlN, a lansiwyd yn 2024, yn dal i fod yn weithredol. Mae'n cynnwys arolwg i ddarganfod sut mae pobl yn teimlo am eu hardal leol a map i ollwng pin i ddangos eu hoff fan gwyrdd cyhoeddus.
Gall pobl gofrestru i glywed am ddigwyddiadau bywyd gwyllt a mannau gwyrdd, hyfforddiant, newyddion, a diweddariadau am brosiect, cyflwyno lluniau a darganfod mwy am brosiectau LlLlN.

Mae'n gyfle i unigolion a chymunedau gymryd rhan, rhannu profiadau, a dysgu gan eraill.

**Cyllid yn 2025:**

Cyllid LlLlN LlC

**Cydweithio:** Partneriaid y Bartneriaeth; cymunedau, gwirfoddolwyr.

<table>
<tr><td colspan="6">Yn cyfrannu at Amcanion CGAN Sir Gaerfyrddin (gweler uchod)</td><td>Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr</td></tr>
<tr><td>❶ ✓</td><td>❷ ✓</td><td>❸ ✓</td><td>❹ ✓</td><td>❺ ✓</td><td>❻</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Mae gwaith gwerthfawr Gwarchod Gloÿnnod Byw yn y sir gyda gwirfoddolwyr yn parhau i ddarparu gwybodaeth werthfawr am statws gloÿnnod byw britheg y gors a'r brithribin brown sy'n flaenoriaeth.<br><br>Ar gyfer y ddau rywogaeth, treuliwyd cannoedd o oriau o amser staff a gwirfoddolwyr, drwy gydol y flwyddyn, yn arolygu safleoedd newydd, yn monitro safleoedd presennol ac yn gwneud gwaith gwerthfawr i ymgysylltu â thirfeddianwyr a rheoli cynefinoedd.<br><br>O ran y glöyn byw brithribin brown, ar ôl i'r niferoedd ostwng am ddegawd o leiaf, mae dwy fetaboblogaeth yn dal i fodoli yng Nghymru, gyda Sir Gaerfyrddin yn gwneud cyfraniad pwysig i'r naill a'r llall yn Nyffrynnoedd Teifi a Thywi.<br><br>O ran brith y gors, mae'r glöyn byw wedi meddiannu mwy o sgwariau grid 1km yn Sir Gaerfyrddin nag yn unrhyw sir arall yng Nghymru o fewn yr ugain mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r 'metaboblogaethau' hyn yn digwydd ar draws ffiniau siroedd felly mae GGB yn cydweithio'n agos â PCBB a Chastell-nedd Port Talbot hefyd.<br><br>Mae prosiect britheg y gors Rhwydweithiau Natur Cymru gyfan gan Gymdeithas Gwarchod Gloÿnnod Byw wedi cael presenoldeb sylweddol yn y sir, ac wedi gwneud gwaith gwych yn ymgysylltu â llawer o wahanol bobl ac yn eu hyfforddi dros y 18 mis diwethaf.</td><td><br>Arolwg wyau gaeaf y brithribin brown</td></tr>
<tr><td colspan="6">Cyllid yn 2025:<br>LlLlN LlC<br>Cyllid Rhwydweithiau Natur</td><td>Cydweithio:<br>YNDGC, NT, CSC, tirfeddianwyr</td></tr>
<tr><td colspan="6">Yn cyfrannu at Amcanion CGAN Sir Gaerfyrddin (gweler y testun rhagarweiniol)?</td><td>Rydym yn gweithio gyda gwirfoddolwyr</td></tr>
<tr><td>❶ ✓</td><td>❷ ✓</td><td>❸ ✓</td><td>❹ ✓</td><td>❺ ✓</td><td>❻</td><td></td></tr>
</table>

**Cyllid Prosiectau yn Sir Gaerfyrddin (gan gynnwys i Bartneriaid Partneriaeth Natur Sir Gâr) yn 2025 – NID yw hwn yn gyflawn - ond dyma'r hyn sy'n hysbys.**

1. **Y Grant Gwella Coetiroedd (TWIG) – prosiectau Sir Gaerfyrddin**

Coetir Cymunedol Bynea

Coetir Glofa Pentremawr

2. **Lleoedd Lleol ar gyfer Natur LlC**

Pecynnau LlLlN Cadw Cymru'n Daclus yn Sir Gaerfyrddin yn 2025

1 Pecynnau dechrau (Peillwyr/Bywyd Gwyllt/Perllannau/Bwyd) ar gyfer cymunedau/grwpiau

8 Pecynnau datblygu (Bwyd/Bywyd Gwyllt) ar gyfer cymunedau/grwpiau

**Cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Sir Gaerfyrddin**

23/24 – prosiectau wedi'u cyflawni/datblygu ar draws 11 pennawd prosiect cyfalaf

23/24 – 11 prosiect refeniw wedi'u cefnogi

24/25 - prosiectau wedi'u cyflawni/ar y gweill ar draws 8 pennawd prosiect cyfalaf

24/25 - 18 prosiect refeniw LlLlN/PNL ar y gweill/wedi'u cynllunio

**3. Coedwig Genedlaethol Cymru**

2025 - Prosiect Coed a Choetiroedd Cysylltiedig Coedwig Glandŵr – Y Gymuned Carbon
Cysylltu coetiroedd, coed gwrychoedd, porfeydd a mawndiroedd Coedwig Glandŵr er mwyn creu cynefinoedd, gwella bioamrywiaeth ac ymgysylltiad cymunedol ehangach.

2025 - Coridorau Coetir Glannau Afon Cothi – YAGC
Creu a rheoli coridorau afonydd coediog naturiol ar hyd Afon Cothi o Bumsaint i'w tharddiad. Coridorau o ardaloedd 4-10m wedi'u ffensio. Rheoli llystyfiant presennol i hybu bioamrywiaeth. Ymgysylltu â'r gymuned.

25-27 - Coridorau Coetir Glannau Afon Cothi – YAGC
Creu a rheoli coridorau afon coediog naturiol ar hyd rhannau uchaf dalgylch Afon Cothi gyda phwyslais cryf ar ymgysylltu a chynnwys y gymuned.

25-27 - Prosiect Coetiroedd Llandeilo – CSC/YNDGC/NT
Gwella mynediad i ymwelwyr; ymgysylltu â phobl leol; creu cynefinoedd coetir newydd; a gwella cynefinoedd a chynhyrchiant economaidd mewn tri safle coetir o amgylch Llandeilo.

**4. Cyllid Rhwydweithiau Natur LlC/CDL**

Rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw Rhwydweithiau Natur. Ei nod yw cryfhau cydnerthedd rhwydwaith tir a safleoedd morol gwarchodedig Cymru, gan ddatblygu capasiti i gryfhau ac uwchraddio darpariaeth yn y dyfodol ar gyfer natur, ac annog ymgysylltiad cymunedol yn weithredol..

**NNF4 2025 – Prosiectau Sir Gaerfyrddin**

YBGDGC - Ein taith tuag at 30x30 – cyflwr, cysylltedd a gwydnwch ar safleoedd gwarchodedig

**Ceisiadau NN5** – 4 cais am brosiect yn Sir Gaerfyrddin – penderfyniadau ym mis Rhagfyr

